**WELSH A1 – STANDARD LEVEL – PAPER 2**
**GALLOIS A1 – NIVEAU MOYEN – ÉPREUVE 2**
**GALÉS A1 – NIVEL MEDIO – PRUEBA 2**

Friday 23 May 2003 (afternoon)
Vendredi 23 mai 2003 (après-midi)
Viernes 23 de mayo de 2003 (tarde)

1 hour 30 minutes / 1 heure 30 minutes / 1 hora 30 minutos

---

INSTRUCTIONS TO CANDIDATES

- Do not open this examination paper until instructed to do so.
- Answer one essay question only. You must base your answer on at least two of the Part 3 works you have studied. You may include in your answer a discussion of a Part 2 work of the same genre if relevant. Answers which are not based on a discussion of at least two Part 3 works, will not score high marks.

INSTRUCTIONS DESTINÉES AUX CANDIDATS

- Ne pas ouvrir cette épreuve avant d'y être autorisé.
- Traiter un seul sujet de composition. Vous devez baser votre réponse sur au moins deux des œuvres de la 3e partie que vous avez étudiées. Le cas échéant, vous pouvez inclure dans votre réponse une discussion sur une œuvre du même genre littéraire étudiée dans la 2e partie du programme. Les réponses qui ne sont pas basées sur au moins deux des œuvres de la 3e partie n'obtiendront pas une note élevée.

INSTRUCCIONES PARA LOS ALUMNOS

- No abra esta prueba hasta que se lo autoricen.
- Elija un tema de redacción. Su respuesta deberá basarse en al menos dos de las obras estudiadas en la Parte 3. Se podrán hacer comentarios sobre una obra de la Parte 2 del mismo género, si fuera necesario. Las respuestas que no incluyan una discusión sobre al menos dos obras de la Parte 3 no recibirán notas altas.

*Ysgrifennwch draethawd ar **un** o'r cwestiynau hyn. Rhaid ichi seilio eich ateb ar o leiaf ddau o'r gweithiau rhan 3 a astudiwyd gennych. Yn eich ateb cewch gynnwys trafodaeth ar waith rhan 2 o'r un genre, os yw'n berthnasol. Ni roddir marciau uchel am atebion nad ydynt wedi eu seilio ar o leiaf ddau o'r gweithiau rhan 3.*

**Barddoniaeth**

**1.** *Naill ai*

(a) "Swydd y bardd yw astudio'r byd, a'i oleuo." I ba raddau y mae'r cerddi y buoch yn eu darllen a'u dadansoddi yn cyfiawnhau'r gosodiad hwn?

*neu*

(b) Pa mor bwysig oedd yr awyrgylch yn y cerddi a oedd yn rhan o'ch astudiaeth, a sut 'roedd y beirdd yn llwyddo i greu awyrgylch a naws?

**Drama**

**2.** *Naill ai*

(a) "Mewn drama mae'r stori'n cael ei dadlennu a'i datblygu drwy gyfrwng ymddiddan, ystumiau a symudiadau'r cymeriadau." Pwyswch a mesur le'r ddwy elfen hyn yn y dramâu a astudiwyd gennych.

*neu*

(b) "Yn ei hanfod mae drama'n ymwneud â gwrthdaro rhwng unigolion ac yn gymdeithasol." Pa mor bwysig oedd gwrthdaro yn y testunau a ddewiswyd gennych?

**Y Nofel**

**3.** *Naill ai*

(a) A gytunwch ei bod yn bwysig fod sawl dimensiwn i gymeriadau mewn nofel, fel y daw'r darllenydd i synio amdanynt fel pobl go-iawn? Atebwch gan gyfeirio at y nofelau a oedd yn rhan o'ch astudiaeth.

*neu*

(b) "Nid dweud stori yn unig a wneir mewn nofel." O'r nofelau a ddewiswyd gennych, ystyriwch gyfraniad rhediad y stori (neu'r naratif) i'ch dealltwriaeth a'ch gwerthfawrogiad o'r gweithiau yn eu cyfanrwydd.

**Storïau Byrion**

**4.** *Naill ai*

(a) Dywedir y dylai'r sawl sy'n darllen stori fer deimlo ei fod yn darllen gwaith sy'n "unoliaeth orffenedig" ac sy'n "gelfyddydol berffaith". Yn y storïau byrion a astudiwyd gennych, i ba raddau 'roedd yr awduron wedi cyrraedd y ddau nod hyn, a sut?

*neu*

(b) Dywedwch beth yw'r brif thema mewn dwy neu dair o straeon byrion o'ch detholiad, ac ystyriwch y ffyrdd y gall thema gyfrannu i'r effaith a gaiff straeon byrion neilltuol yn y pen draw.

**Hunangofiant a Chofiant**

**5.** *Naill ai*

(a) "Nid hanes unigolyn sydd bwysicaf mewn hunangofiant nac mewn cofiant, ond hanes ei berthynas â phobl eraill." Pa mor bwysig oedd yr elfen o berthyn yn y gweithiau a astudiwyd gennych?

*neu*

(b) Pa ddigwyddiadau a syniadau a oedd o ddiddordeb arbennig i chi yn y cofiannau/ hunangofiannau a astudiwyd gennych, a pha mor argyhoeddiadol ac effeithiol oedd y modd y cawsant eu cyflwyno?

**Cwestiynau cyffredinol**

**6.** *Naill ai*

(a) I ba raddau mae gwrthdaro a thyndra rhwng unigolion neu rhwng carfannau o fewn y gymdeithas yn elfen bwysig yn y gweithiau llenyddol a astudiwyd gennych?

*neu*

(b) "Mae dychan ac eironi'n arfau pwysig yn llaw'r llenor." Trafodwch y modd y'u defnyddiwyd hwy yn y gweithiau y buoch yn canolbwyntio arnynt.

*neu*

(c) I ba raddau, ac i ba effaith y cawsoch fod materion yn ymwneud â'r rhywiau o bwys yn eich testunau gosod?

*neu*

(ch) A gafodd eich dealltwriaeth o fywyd ei dyfnhau a'i hestyn gan y gweithiau y buoch yn eu hastudio? Esboniwch sut y llwyddodd y gweithiau llenyddol a ddewiswyd i wneud hyn.